# Pecyn Gwybodaeth Diwylliant Cymru

Datblygwyd y pecyn hwn i gefnogi darparwyr gofal plant i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o ddiwylliant Cymru, a helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned leol, hunaniaeth Gymreig a dinasyddiaeth fyd-eang



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

pacey Cymru

# Cynnwys


1. Rhagarweiniad
2. Y buddion i blant, darparwyr gofal plant, teuluoedd a Chymru fel gwlad
3. Ffeithiau difyr am Gymru
4. Ffeithiau difyr am arwyddluniau Cymreig
5. Dathliadau, gwyliau a digwyddiadau Cymreig
6. Atyniadau twristiaeth Cymru
7. Ein ryseitiau Cymraeg traddodiadol
8. Gweithgareddau diwylliant Cymreig
9. Gwybodaeth bellach

Cymru

Oes gennych chi ddiddordeb mewn ehangu eich gwybodaeth am ddiwylliant Cymru?

Hoffech chi wella'r cyfleoedd dysgu i blant yn eich gofal?

Hoffech chi gael syniadau ar sut i ymestyn y cyfleoedd dysgu i'r plant sy'n ymwneud â diwylliant Cymru?

# Rhagarweiniad

Mae PACEY Cymru wedi gallu ymchwilio a chynhyrchu'r Pecyn Gwybodaeth Diwylliant Cymru hwn gyda diolch i arian Llywodraeth Cymru. Adnodd sy'n cysylltu â'r cwricwlwm i Gymru (2022), Cynnig Gweithredol a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg yng Nghymru yw hwn.

Mynegir y diwylliant Cymru mewn sawl ffordd ledled y wlad, o siarad yr iaith Gymraeg, dathlu gwyliau traddodiadol a diwylliannol ynghyd â choginio ryseitiau Cymreig traddodiadol. Gobeithio y bydd y wybodaeth a ddarperir yn y pecyn hwn yn ddefnyddiol i chi ac yn adnodd a fydd yn eich helpu i gynllunio, datblygu a myfyrio ar eich darpariaeth.

Bydd yn eich cefnogi i ymestyn cyfleoedd i blant gyda'u teuluoedd a'r gymuned leol.  Bydd yn eich cefnogi i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'u hamgylchedd, eu helpu i archwilio eu hunaniaeth a gadael iddynt ennill ymdeimlad o berthyn i'r wlad y maent yn byw ynddi.

pacey Cymru

# Y buddion i blant




O gael y cyfle i ddysgu am ddiwylliant Cymru, bydd hyn yn helpu'r plentyn:

- cael ymdeimlad o berthyn i Gymru
- dangos chwilfrydedd a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd a dysgu
- datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau ac anghenion, safbwyntiau a chredoau pobl eraill yn eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill
- dysgu am eu cymuned, straeon lleol a'u hanes ac i ddeall, gwerthfawrogi, parchu a dangos gwerthfawrogiad o eraill
- archwilio iaith newydd a datblygu lleferydd ac iaith amrywiol o oedran ifanc

# Buddion i ddarparwyr gofal plant

Trwy archwilio a thrafod diwylliant Cymru, bydd darparwyr gofal plant yn:

- dysgu a gwella eu gwybodaeth bersonol am ddarparwyr diwylliant Cymru
- meddwl yn greadigol i gynnig cyfleoedd dysgu newydd i'r plant sydd dan eu gofal
- meithrin perthnasoedd cryfach gyda'r plant a'r gymuned
- cefnogi cynllunio o amgylch diddordebau plant
- gwella gwybodaeth plant am ddiwylliant Cymru
- cefnogi gwella ansawdd



# Buddion i'r teuluoedd

Trwy gynnig gweithgareddau a chyfleoedd i archwilio diwylliant Cymru bydd teuluoedd yn gallu:

- cyfrannu ac awgrymu gweithgareddau newydd y gallent fod wedi'u profi fel plentyn eu hunain
- parhau â thrafodaethau a gweithgareddau gartref i ehangu'r dysgu a'r ddealltwriaeth



pacey Cymru

# Buddion i Gymru fel gwlad

Trwy gyflwyno gweithgareddau a chyfleoedd diwylliannol Cymru, bydd Cymru yn elwa o:

- cael mwy o bobl yn cael ymdeimlad o berthyn i'w gwlad
- gan roi ymdeimlad o berthyn i blant maent yn fwy tebygol o aros yn y wlad neu symud yn ôl pan fyddant yn hŷn
- cael unigolion i drosglwyddo gwybodaeth i'w teuluoedd eu hunain fel plant ac oedolion
- cadw'r diwylliant a'r iaith yn fyw



# Ffeithiau difyr am Gymru

- Yr Wyddfa, yw'r mynydd uchaf yng Nghymru yn 1085m - sydd yr un peth â gosod 241 o fysiau deulawr ar ben ei gilydd!!
- Mae'r reid weiren wib hiraf a chyflymaf Prydain wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Gallwch chi fynd mor gyflym â 100 milltir yr awr, mae hynny hyd yn oed yn gyflymach nag yr ydych chi'n cael gyrru ar drafffordd!
- Y Gymraeg yw'r iaith hynaf ym Mhrydain, gyda hi yn dyddio'n ôl dros 4,000 o flynyddoedd.
- Mae Rygbi'r Undeb yn cael ei ystyried fel y gamp genedlaethol. Oeddech chi'n gwybod, ar ddechrau, nad oedd y bêl rygbi er nad oedd yn hollol grwn mor siâp hirgrwn ag y mae y dyddiau hyn.
- Cymro yw awdur plant Roald Dahl. Cafodd ei eni yng Nghaerdydd ym 1916, mae Roald Dahl yn enwog am ei lyfrau gan gynnwys Charlie a'r Ffatri Siocled, Yr CMM, Matilda a'r stori Y Crocodeil Anferthol.
- Oeddech chi'n gwybod bod dros 600 o gestyll yng Nghymru?

- Mae dros 10 miliwn o ddefaid yng Nghymru, sy'n fwy na nifer y bobl, gan mai dim ond 3 miliwn yw'r boblogaeth!  Mae hynny'n golygu i bob un person mae 3 dafad!
- Cymru sydd â'r enw lle hiraf yn y DU gyda 58 llythyr i gyd. Beth am roi cynnig ar yr enw lle hwn: Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch




- Sain Ffagan yn Amgueddfa Werin Cymru. Oeddech chi'n gwybod bod yr adeilad ysgol hanesyddol yn Sain Ffagan wedi'i adeiladu gyntaf yn Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion ym 1880 ac yn cael ei alw'n Maestir sy'n golygu ‘range?’ Byddai plant rhwng 5 a 14 oed i gyd yn cael eu haddysgu mewn un ystafell addysgu. Dychmygwch hynny!

# Ffeithiau difyr am arwyddluniau Cymreig

- Arwyddlun cenedlaethol Cymru yw'r genhinen. Oeddech chi'n gwybod bod y Brenin Cadwaladyr wedi gofyn i filwyr Cymru wisgo cenhinen ar eu helmed fel y byddent yn cael eu cydnabod fel un o'i gydwladwyr?
- Mae'r ddraig sy'n ymddangos ar fflag genedlaethol Cymru yn ymwneud â'r dyddiau pan oedd gan Fyrddin weledigaeth o'r ddraig Gymreig goch yn ymladd yn erbyn y ddraig wen y credwyd ei bod yn goresgyn Cymru.
- Mae cennin Pedr yn ymddangos yn naturiol yn gynnar yn y gwanwyn ac yn blodeuo o amgylch Dydd Gŵyl Dewi. Mae meddyginiaeth Alzheimer wedi'i ddatblygu o gennin Pedr a dyfwyd ym Mynyddoedd Du Cymru.



- Beth sy'n gwneud y Delyn Gymreig yn wahanol i'r lleill? Mae gan y delyn Gymreig dair rhes o linyn yn hytrach nag un rhes. Oeddech chi'n gwybod bod yr Eidal wedi dyfeisio'r delyn Gymreig?





- Credir i'r llwy gariad ddod o'r llwy a ddefnyddiwyd ar gyfer cawl. Gallwch weld un o'r llwy gariad hynaf sy'n dyddio'n ôl i 1667 yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

# Dathliadau, gwyliau a digwyddiadau Cymreig

## Dydd Gŵyl Dewi:

Dewi Sant yw nawddsant Cymru. Mawrth 1af yw diwrnod dathlu blynyddol Dewi Sant a diwylliant traddodiadol Cymru. I nodi'r diwrnod, mae Cymry ledled y byd yn gwisgo'r arwyddluniau cenedlaethol - cenhinen Pedr a chenhinen, yn ogystal â chrysau Cymreig a gwisgoedd traddodiadol.

Dydd Gŵyl Dewi Hapus! – Happy St David’s Day!

## Dydd Santes Dwynwen:

Sant Dwynwen yw nawddsant cariadon Cymru. Roedd Dwynwen yn Dywysoges y 4edd Ganrif a gafodd brofiad cariad trist iawn. O ganlyniad daeth Dwynen yn lleian a sefydlu mynachlog yn Ynys Llanddwyn yn Ynys Môn.  Mae Dydd Santes Dwynwen yn cael ei ystyried fel Ddydd San Ffolant Gymreig ac yn cael ei ddathlu'n flynyddol ar Ionawr 25ain.

pacey Cymru

# Yr Eisteddfod:

Gŵyl Gymreig yw Eisteddfod sy'n dathlu llenyddiaeth, cerddoriaeth a pherfformiad Cymreig. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddathliad o'r diwylliant a'r iaith yng Nghymru. Mae'r ŵyl yn teithio o le i le, bob yn ail rhwng gogledd a de Cymru ac yn denu 150,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'n cynnwys Maes(pitch) lliwgar gyda phafiliwn to pinc eiconig sy'n gartref i'r cystadlaethau.

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ŵyl ieuenctid sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.  Mae dros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu yn ystod wythnos yr Eisteddfod mewn amryw o gystadlaethau fel canu, dawnsio a pherfformio.



pacey Cymru

## Yr Urdd:

Mae Urdd Gobaith Cymru yn Sefydliad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 8 - 25 oed. Mae'n darparu cyfleoedd trwy gyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r Urdd yn hwyluso Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (gweler uchod) bob blwyddyn. Mae'r Urdd hefyd wedi sefydlu pedair canolfan breswyl ledled Cymru lle maen nhw'n cynnig ystod o weithgareddau awyr agored a gwyliau antur i blant. Ym mis Medi 1976 cafodd Mr Urdd y masgot gwyrdd, coch a gwyn ei eni  ac mae'n parhau i fod yn gymeriad Cymreig poblogaidd yr 21ain Ganrif.



# Atyniadau twristiaeth Cymru

## Cestyll:

- Dywedir bod gan Gymru fwy o gestyll nag unrhyw wlad arall yn Ewrop.
- Mae yna dros 600 o gestyll yng Nghymru yn unig!
- Un o'r cestyll hynaf yng Nghymru yw Castell Cas-gwent yn Sir Fynwy,
- Mae tŵr gogwyddol Castell Caerffili yn gogwyddo mwy na Thŵr Gogwyddol Pisa enwog.



## Atyniadau:

- Yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru gallwch ddarganfod sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio yng Nghymru yn y gorffennol trwy ymweld â'u hadeiladau hanesyddol sydd wedi'u hail-godi. Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi wylio'r gof a'r gwneuthurwr clocsiau yn gweithio, gan ddefnyddio'r offer cynnar?
- Yn bedair milltir o hyd ac ymhell dros 40m o ddyfnder, Llyn Tegid yw'r llyn mwyaf yng Nghymru. Mae hynny fel dyfnder dros 6 phwll nofio, mae hynny ymhell i lawr!
- Cynhelir Sioe Frenhinol Cymru yn flynyddol yng Nghanolbarth Cymru yn ystod cyfnod yr haf a'r gaeaf ac mae'n un o'r sioeau amaethyddol mwyaf yn y DU gan ddod â'r diwydiant ffermwyr a'r gymuned Gymreig ynghyd. Oeddech chi'n gwybod mai dim ond Canada ac Awstralia yw'r unig ddwy wlad arall i gynnal sioeau amaethyddol 'Brenhinol'?

- Stadiwm y Principality yw stadiwm rygbi fwyaf Cymru. Mae'n dal hyd at 74,500 o bobl a hwn oedd y stadiwm gyntaf i gael to ôl-dynadwy (agored a chau). Mae 640 o sinciau golchi dwylo yn y stadiwm, meddyliwch faint o dai y byddai hyn yn eu llenwi!
- Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi'i lleoli yn Sir Gaerfyrddin. Ewch i'r Ty Gwydr Mawr i weld 'rhai o'r planhigion sydd fwyaf dan fygythiad ar y blaned'.



# Ein ryseitiau Cymraeg traddodiadol

Rydym wedi cynnwys amrywiaeth o ryseitiau Cymraeg a rennir gan aelodau o dîm PACEY Cymru.

Rydyn ni'n siŵr bod gennych chi, neu deuluoedd plant yn eich gofal, ffefrynnau eraill y gellir eu coginio neu eu pobi yn eich lleoliad!



# Cawl Teulu Braint

"Wrth ymweld â Nain bob prynhawn Sul bydden ni i gyd yn cael ein croesawu gan yr arogl cyn gynted ag y bydden ni'n cyrraedd ar y dreif. Byddai fersiwn Nain o ginio dydd Sul yn gawl ham, roedden ni i gyd yn eistedd o amgylch y bwrdd i'w fwynhau gyda'n gilydd fel teulu. Mae'r rysáit hon wedi cael ei phasio i lawr ac mae Mam bellach yn ei choginio'n rheolaidd, ond peidiwch â dweud wrthi nad yw cystal ag un Nain!"

**Cynhwysion:**

Darn gamon neu gig oen mwg
Dŵr
1 swedsen fach, 3 moron mawr
2 genhinen fawr, 500g o datws
1 pinsiad mawr o bersli
Halen a phupur du i flasuso



**Dull:**

1. Coginiwch y darn o gig mewn dŵr a'i goginio yn ôl y cyfarwyddyd a cadwch y dŵr i'w ddefnyddio fel stoc
2. Tra bod y cig yn mudferwi, glanhewch a pharatoi'r llysiau, unwaith y bydd y cig yn barod tynnwch ef o'r dŵr a'i adael i orffwys
3. Cynheswch y stoc, ychwanegwch y swedsen a'r moron a'u berwi'n ysgafn am 5 munud wedyn ychwanegwch y cennin, y persli a'r tatws a'u berwi am 30 munud arall
4. Torrwch y cig yn giwbiau bach a'i ychwanegu at y gymysgedd cawl a'i fudferwi'n ysgafn am 10 munud arall
5. Gallwch chi ei weini ar unwaith ond mae hyd yn oed yn brafiach drannoeth pan ddaw'n gawl mwy trwchus

# Bara Brith Nain Claire

"Cafodd fy nain ei geni yn Northop Hall yng Ngogledd Cymru ond symudodd i Nebo yng nghefn gwlad Gwynedd pan oeddwn yn ifanc iawn. Pobi gyda hi yw un o fy atgofion melysaf ac mae'r rysáit hon ohoni yn mynd â mi yn ôl i'w chegin bwthyn bach ac arogleuon sbeisys a phobi. Roedd hi'n athrawes ysgol gynradd a hefyd roedd y ffaith ei bod hi wedi dysgu Cymraeg fel oedolyn hŷn yn ysbrydoliaeth fawr wrth sicrhau fy mod i'n cofleidio iaith a diwylliant Cymraeg yn fy mywyd."

**Cynhwysion:**

250ml o de oer, cryf, du
340g o siwgr gronynnog
2 lwy de o sbeis cymysg
225g o ffrwythau sych cymysg
115g menyn neu fargarîn
Pinsiad o halen
Pinsiad o soda pobi sydd wedi'i gymysgu â llwy de o laeth
300g o flawd hunan-godi
1 wy mawr (wedi'i chwisgio)



**Dull:**

1. Cymysgwch y te, siwgr, sbeis cymysg, ffrwythau sych, menyn neu fargarîn, halen a soda pobi gyda llaeth mewn sosban a berwch am 4 munud
2. Oerwch am 10 i 15 munud ac yna ychwanegwch y blawd sydd wedi'i hidlo a'r wy sydd wedi'i chwisgio
3. Cymysgwch yn dda gyda llwy bren wedyn rhowch nhw mewn tun torth sydd wedi'i iro a'i leinio'n dda a'i goginio ar 140 °C am 1 i 1½ awr nes ei fod yn frown ar ei ben a bod sgiwer yn dod allan yn lân o'r canol

# Brecwast Cymreig Shelley

“Fel plentyn ifanc, gan ein bod yn un o bump plant, anaml y byddem yn cael bwydydd ffansi neu newydd, fodd bynnag roedd Brecwast Cymreig Dad yn wledd. Roedd fy nhad yn ddyn prysur yn dal dwy swydd, roedd hyn yn golygu y byddai'n achlysur arbennig i'w weld yn coginio. Pan ddaeth i crempogau, omledau ac yn bwysicach Brecwast Cymreig, Dad oedd y Prif Gogydd! Bob tro rwy'n cael y brecwast hwn mae'n daith i lawr
lôn atgofion. Os rhowch gynnig arni gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio ‘menyn Cymreig hallt da’ oherwydd dyna oedd y gyfrinach a basiodd Dad ymlaen i mi.......”

**Cynhwysion (yn bwydo 2):**
4 darn o gig moch
4 sleisen o fara brown
120g o fara lawr
155g o gocos (pot bach)
2 wy
50g o fenyn Cymreig sydd wedi'i halltu a pinsiad o bupur a halen i'w flasuso



**Dull:**
1. Coginiwch y cig moch at eich dant (rydyn ni'n ei hoffi yn grensiog) a wedyn ffriwch wy, eto at eich dant a tostiwch y bara
2. Toddwch y menyn (arbed rhywfaint ar gyfer y tost) mewn padell wedyn ac ychwanegwch y bara lawr gyda llawer o bupur a phinsiad o halen môr ac wedyn ychwanegwch y cocos sydd wedi’u golchi i'r fara lawr ar wres ysgafn (neu weini'n oer)
3. Gweinwch y bara lawr a'r cocos ar hanner y tost, ychwanegwch yr wy a'r cig moch a mwynhewch gyda phaned dda o de Cymreig!

# Picau ar y Maen Nain Stacey

"Cafodd fy nain ei geni ym 1924 mewn pentref mwyngloddio bach yng Nghymoedd Rhondda. Yn 20 oed wrth i'r rhyfel dechrau, priododd fy nhaid ac yn fuan wedi hynny cafodd ei anfon allan gyda'r fyddin. Roedd arian yn dynn ac roedd bwyd ar ddogn ac felly dysgodd fy nain goginio prydau o bron ddim. Mae gan fy mam lawer o ryseitiau fy nain, ond yr un y mae'n ei defnyddio hyd heddiw yw ei rysáit picau ar y maen. Isod mae llun o garreg pobi fy nain rydw i wedi'i gadw."

**Cynhwysion:**
450g blawd plaen
226g menyn neu fargarîn
100g o fraster, 170g o siwgr
100g o gyrens
1 llwy de o bowdr pobi
1 llwy de o halen
2 wy, Sblash o laeth



**Dull:**
1. Cymysgwch y blawd, y siwgr, y powdr pobi a'r pinsiad o halen mewn powlen a rhwbiwch y menyn a'r braster i'r gymysgedd nes ei fod yn friwsionllyd
2. Ychwanegwch y cyrens, yr wyau a sblash o laeth a'u cymysgu ac os yw'n ymddangos ychydig yn sych wedyn rholiwch y toes allan ar arwyneb â bach o flawd arno. Torrwch y picau ar y maen gan ddefnyddio torrwr crwn, gan ail-rolio unrhyw ddarnau bach
3. Irwch badell fflat/padell ffrio gyda braster, ar wres canolig. Coginiwch y picau ar y maen am 3 munud bob ochr nes eu bod yn frown euraidd. Ysgeintiwch siwgr i orffen

# Gweithgareddau diwylliant Cymreig

Cynhyrchwyd y gweithgareddau canlynol i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth plant o ddiwylliant Cymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnal gwiriadau priodol ac asesiad risg o'r amgylchedd a'r adnoddau y byddwch chi'n eu defnyddio. Defnyddiwch y rhain neu meddyliwch am eich syniadau eich hun a'u rhannu ar ein tudalen Facebook PACEY Cymru.



# Olion traed draig

Mae Fflag Genedlaethol Cymru yn cynnwys draig goch ar gefndir gwyrdd a gwyn, efallai yr hoffech chi ddefnyddio'r lliwiau hyn ar gyfer eich olion traed draig?

- Gwnewch olion traed draig gan ddefnyddio paent, dŵr, ewyn eillio neu does chwarae
- Meddyliwch am faint eich printiau a'r lle sydd ei angen
- Gwnewch lwybr ôl troed neu helfa drysor troed draig anferth

## Geirfa a awgrymir i gefnogi'r gweithgaredd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Draig | Dragon | Syth ymlaen | Straight ahead | Torri | Cut |
| Troad | Food | I'r dde | To the right | Bach | Small |
| Olion traed | Footprints | I'r chwith | To the left | Enfawr | Giant |
| Fflag | Flag | Sefyll | Stand | Maint | Size |
| Llwybr | Path | Dilyn | Follow | Cyfri | Count |
| Cyfrwch yr olion traed | | | Count the footprints | | |

### Ymestyn y dysgu hwn

- Anogwch y plant i symud fel dreigiau. Gallech chi ganu'r hwiangerdd Gymraeg draddodiadol heno heno yn cyfnewid y geiriau i ganu yn lle 'heno heno hen ddraig fach'
- Ewch i'r llyfrgell i annog y plant i ddod o hyd i lyfrau sy'n ymwneud â dreigiau.

# Dydd Santes Dwynwen

Dydd Santes Dwynwen yw’r hyn sy’n cyfateb i Gymru ar gyfer Dydd Sant Ffolant, gan y credir mai Dwynwen yw nawddsant cariadon yng Nghymru. Mae'n cael ei ddathlu'n flynyddol ar 25 Ionawr. Sut y byddwch chi'n dathlu'r diwrnod hwn yn eich lleoliad?

- Chwiliwch ar y rhyngrwyd a llyfrau am luniau o lwyau cariad neu defnyddiwch enghreifftiau go iawn a geir mewn siopau elusennol neu werthiannau cist car
- Trafodwch y symbolau a ddefnyddir ar lwyau cariad gyda phlant, mae gan bob un ystyr
- Dyluniwch lwyau cariad gyda'r plant ar bapur neu gan ddefnyddio toes halen y gellir ei bobi a'i addurno.

## Geirfa a awgrymir i gefnogi'r gweithgaredd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llwy garu | Love spoon | Croes | Cross | Cariad | Love |
| Dydd | Day | Cloch | Bell | Calon | Heart |
| Ionawr | January | Cadwyn | Chain | Pedol | Horseshoe |
| Adar | Birds | Olwyn | Wheel | Telyn | Harp |
| Allwedd | Key | Clo | Lock | Blodau | Flowers |
| Pa symbol wyt ti’n hoffi? | | | What symbol do you like? | | |

### Ymestyn y dysgu hwn

- Dewch o hyd i lyfr neu adnodd ar-lein sy'n briodol i'w hoedran sy’n adrodd stori Santes Dwynwen a helpu i drosglwyddo'r stori draddodiadol
- Cefnogwch y plant i ysgrifennu neges i gyd-fynd â'r anrheg llwy gariad at bwy maen nhw'n ei rhoi

# Llyfr Rysáit Cymraeg

Mae Cymru yn adnabyddus am ei nifer o fwydydd unigryw a thraddodiadol. Beth sydd gennych chi yn lleol?

- Gofynnwch i'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda i rannu eu ryseitiau Cymreig traddodiadol ac unrhyw luniau sydd ganddyn nhw
- Gan weithio gyda'r plant yn eich gofal, crëwch lyfr ryseitiau ar gyfer y lleoliad a'i rannu gyda rhieni a gofalwyr

## Geirfa a awgrymir i gefnogi'r gweithgaredd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwilio | Search | Sisiwrn | Scissors | Dull | Method |
| Gofyn | Ask | Glud | Glue | Offer | Equipment |
| Bwyd | Food | Picau ar y maen | Welsh cakes | Mesur | Measure |
| Prydau | Dishes | Cynhwysion | Ingredients | Coginio | Cook |
| Llyfr | Book | Cyfarwyddiadau | Instructions | Pobi | Bake |
| Faint sydd angen?<br>Rwy'n hoffi'r rysáit yma!<br>Mae'n flasus iawn. | | | How much is needed?<br>I like this recipe!<br>It's very tasty. | | |

## Ymestyn y dysgu hwn

- Rhowch gynnig ar y ryseitiau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn hwn. Gwnewch restr siopa gyda'r plant ac ymwelwch â'ch siop leol
- Plannwch eich blodau a'ch llysiau eich hun sydd ag arwyddocâd i Gymru, meddyliwch am gennin Pedr a thyfu cennin y gellid eu defnyddio yn y rysáit cawl

# Dod yn Farchog

Oeddech chi'n gwybod bod Owain Glyndwr, Tywysog olaf Cymru wedi gwisgo arfwisg amddiffynnol i amddiffyn ei hun rhag cael ei frifo mewn brwydr?

- Gwisgwch fel marchogion, gan wneud eich gwisgoedd eich hun gan ddefnyddio deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu
- Ymchwiliwch a siaradwch â phlant am yr arfwisg a sut y byddai gwisgoedd yn cael eu gwisgo ar hyd yr oesoedd yng Nghymru ac ar gyfer digwyddiadau amrywiol

## Geirfa a awgrymir i gefnogi'r gweithgaredd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwisgo | Dress | Digwyddiad | Event | Cleddyf | Sword |
| Gwisg | Costume | Brwydyr | Battle | Defnyddiau | Materials |
| Arfwisg | Armour | Castell | Castle | Cadwyn | Chain |
| Clogyn | Cloak | Marchog | Knight | Dewr | Brave |
| Helmed | Helmet | Amddiffyn | Protect | Cryf | Strong |
| Rwy'n farchog dewr! | | | I'm a brave knight! | | |

### Ymestyn y dysgu hwn

- Ymwelwch â chastell lleol neu ystyriwch ymweliad rhithwir ar-lein i dyfu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o fywyd yng Nghymru trwy hanes.
- Creu castell yn eich lleoliad i gefnogi chwarae rôl gan ddefnyddio naill ai cardbord neu ddeunyddiau sydd gennych ar gyfer adeiladu ffau y tu mewn neu'r tu allan

# Yr Eisteddfod

Gŵyl Gymreig yw Eisteddfod sy'n dathlu llenyddiaeth, cerddoriaeth a pherfformiad Cymreig.

- Cynhaliwch Eisteddfod yn eich lleoliad a gofynnwch i'r plant ddarllen cerdd neu stori Gymraeg, canu cân Gymraeg neu berfformio dawns werin Gymreig o flaen eu teuluoedd a'u ffrindiau
- Gwisgwch mewn gwisgoedd Cymreig traddodiadol, efallai y bydd y rhain gennych chi yn eich blwch gwisgo i fyny

## Geirfa a awgrymir i gefnogi'r gweithgaredd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Canu | Sing | Gwisgo i fyny | Dress up | Gwrando | Listen |
| Dawnsio | Dance | Cymru | Wales | Cynulleidfa | Crowd |
| Darllen | Read | Crys Cymraeg | Welsh shirt | Curo dwylo | Clap |
| Dysgu | Learn | Gwisg traddodiadol | Traditional costume | Lloni | Cheer |
| Ymarfer | Rehearse | Offerynnau | Instruments | Cerddoriaeth | Music |
| Da iawn ti!<br>Bendigedig!<br>Tro...(enw plentyn)...nesaf | | | Well done you!<br>Fantastic!<br>(child's name) turn next | | |

### Ymestyn y dysgu hwn

- Cyflwyno cân Gymraeg Mr Urdd i'r plant ei dysgu ac o bosib perfformio gyda'i gilydd
- Creu baneri coch, gwyrdd a gwyn i addurno'r lleoliad ar gyfer eich Eisteddfod (dyma liwiau fflag Cymru a hefyd lliw Mr Urdd)

# Cicston Cymraeg

Mae gan Gymru lawer o arwyddluniau cenedlaethol sy'n cynrychioli ei gwlad.

- Cefnogwch y plant i dynnu cicston ar y llawr gan ddefnyddio sialc
- Cefnogwch y plant i dynnu arwyddluniau Cymreig adnabyddus yn y sgwariau cicston.
- Wrth i'r plant chwarae cicston defnyddiwch y geiriau Saesneg a Chymraeg ar gyfer yr arwyddluniau i atgyfnerthu datblygiad iaith

## Geirfa a awgrymir i gefnogi'r gweithgaredd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hercian | Hop | Draig | Dragon | Lluniau | Pictures |
| Neidio | Jump | Pél rygbi | Rugby ball | Lliwgar | Colourful |
| Fflag | Flag | Castell | Castle | Arwyddlun | Emblem |
| Cenyn | Leek | Dafad | Sheep | Llwy garu | Love spoon |
| Cenyn Pedr | Daffodil | Ysgrifennu | Write | Tynnu llun | Draw |
| Tynna lun o gastell | | | Draw a castle | | |

### Ymestyn y dysgu hwn

- Cefnogwch y plant i greu murlun ar gyfer y lleoliad y gellir ei arddangos yn ymgorffori delweddau sy'n berthnasol i Gymru. Gellir tynnu neu gynhyrchu hwn â llaw gan ddefnyddio delweddau sydd wedi'u torri allan o gylchgronau.
- Yn lle'r mochyn arferol, cefnogwch y plant i wneud blwch arian defaid papier mâché

PACEY Cymru

# Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am gefnogi datblygiad y Gymraeg, ewch i adnoddau PACEY Cymru ar Ddatblygu'r Iaith Gymraeg neu cysylltwch â PACEY Cymru ar paceycymru@pacey.org.uk neu ffoniwch 02920 351407.

Darperir y wybodaeth hon gan Gymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY) fel canllaw yn unig. Er i bob ymdrech gael ei wneud i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir ac yn gyfredol, ni fydd PACEY yn gyfrifol am unrhyw golled, difrod neu anghyfleustra a achosir o ganlyniad i unrhyw anghywirdeb, wall neu hepgoriad.

Rydym yn awdurdodi defnyddwyr i weld a lawrlwytho deunyddiau PACEY at ddefnydd personol, anfasnachol yn unig. Mae'n rhaid i chi gadw'r hawlfraint, nod masnach neu hysbysiadau eraill a gynhwysir yn y deunydd gwreiddiol ar unrhyw beth yr ydych yn lawrlwytho, ac ni ddylid eu newid mewn unrhyw ffordd.

Ni ddylai deunyddiau gael eu hatgynhyrchu heb ganiatâd ysgrifenedig gan PACEY ymlaen llaw. Ni ddylid newid deunyddiau neu eu defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Ynglŷn â PACEY

PACEY Cymru

Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar yw PACEY. Wedi'i ffurfioyn 1977, rydym yn elusen sy'n ymroddedig i gefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gofal o ansawdd uchel a dysgu cynnar i blant a theuluoedd.

Rydym yn darparu hyfforddiant, cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr.

Ein cenhadaeth yw cefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ddarparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

# Ynglŷn â PACEY Cymru

Mae PACEY Cymru yn rhan annatod o PACEY sy'n darparu gwasanaeth ymrwymedig yng Nghymru i'n haelodau, pob gofalwr plant arall a'n partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'u hasiantaethau statudol. Mae PACEY Cymru yn derbyn cyllido craidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn i ofal plant yn y cartref gyfrannu at strategaeth, cynlluniau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae cyllido Llywodraeth Cymru yn cynnal llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan PACEY Cymru.

Ers amser maith, mae PACEY Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant am gwella ansawdd wrth godi safonau gofal plant ac addysg a ddarperir gan weithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru a chynnig ystod o gynnyrch a gwasanaethau hyblyg a luniwyd i ddiwallu anghenion lleol.